Y Brifysgol Agored yng Nghymru
18 Heol y Tollty Caerdydd
CF10 1AP

The Open University in Wales
18 Custom House Street
Cardiff
CF10 1AP

Ffôn/Tel +44 (0)
Ffacs/Fax +44 (0)
open.ac.uk/wales

Kirsty Williams AS
Y Gweinidog Addysg
Trwy e-bost

11 Medi 2020

Annwyl Weinidog

Adolygiad Annibynnol o Gymwysterau yng Nghymru 2020

Diolch am fy ngwahodd i gadeirio'r Adolygiad parthed trefniadau ar gyfer dyfarnu graddau ar gyfer cyfres arholiadau'r haf 2020, ac i ystyried ar gyfer 2021.

Mae'n bleser gennyf allu eich hysbysu y bydd y canlynol yn ymuno â mi wrth gynnal yr Adolygiad:

- Yr Athro Alma Harris, Dirprwy Bennaeth Ysgol Addysg Abertawe. Cynghorydd Addysg Rhyngwladol i Brif Weinidog yr Alban;
- Andy Youell, arbenigwr llawrydd ar ddata a systemau, a arferai fod yn Gyfarwyddwr Polisi a Llywodraethu Data yn HESA; a
- Rosemary Jones OBE, cyn Brifathrawes.

Fe fyddwn yn derbyn cefnogaeth yn ein gwaith gan swyddog arweiniol annibynnol, sef Dr Sue Hybart. Byddwn hefyd yn galw ar arbenigedd a phrofiad o bob rhan o'r sector addysg yng Nghymru a thu hwnt wrth i'n gwaith fynd rhagddo.

Rwy'n edrych ymlaen at glywed gan drawstoriad eang o'r rheini sy'n ymwneud â'r trefniadau ar gyfer 2020, gan glywed hefyd oddi wrth y rheini sydd wedi eu heffeithio gan y trefniadau hyn, ac i dderbyn mewnbwn pellach oddi wrth y rheini sydd â diddordeb mewn llunio trefniadau yn y dyfodol.

Dwi hefyd yn medru cadarnhau'r Cylch Gorchwyl ar gyfer yr Adolygiad sydd wedi ei atodi yn y llythyr yma.

Bydd y Panel yn dechrau ar y gwaith wythnos nesaf gyda'r nod o gyflwyno adroddiad interim i chi erbyn diwedd mis Hydref, ac adroddiad terfynol erbyn canol mis Rhagfyr.

Yn gywir,

Louise Casella

Mrs Louise Casella
Cyfarwyddwr, Y Brifysgol Agored yng Nghymru

Ymgorfforir y Brifysgol Agored drwy Siarter Frenhinol (RC 000391), sef elusen eithriedig yng Nghymru a Lloegr ac elusen gofrestredig yn yr Alban (SC 038302). Awdurdodir a rheoleiddir y Brifysgol Agored gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â'i gweithgaredd eilradd o froceru credyd.

The Open University is incorporated by Royal Charter (RC 000391), an exempt charity in England & Wales, and a charity registered in Scotland (SC 038302). The Open University is authorised and regulated by the Financial Conduct Authority in relation to its secondary activity of credit broking.